# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Gwahardd gosod a rheoli heb gofrestriad a thrwydded*

### 10 Ystyr gwaith gosod

(1) Yn y Rhan hon ystyr "gwaith gosod" yw'r pethau y mae unrhyw berson yn eu gwneud mewn ymateb i gyfarfwyddiadau gan—

(a) person sy'n ceisio canfod person arall sy'n dymuno rhentu annedd o dan denantiaeth ddomestig ac, ar ôl canfod y cyfryw berson, rhoi'r gyfryw denantiaeth ("darpar landlord");

(b) person sy'n ceisio canfod annedd i'w rhentu o dan denantiaeth ddomestig ac, ar ôl canfod y gyfryw annedd, gael gafael ar y gyfryw denantiaeth ohoni ("darpar denant");

yn ddarostyngedig i'r is-adrannau a ganlyn.

(2) Nid yw "gwaith gosod" yn cynnwys unrhyw beth ym mharagraffau (a) neu (b) a ganlyn—

(a) cyhoeddi hysbysebion neu ledaenu gwybodaeth;

(b) darparu dull—

(i) y gall darpar landlord (neu asiant y darpar landlord) neu ddarpar denant ei ddefnyddio, mewn ymateb i hysbyseb neu ledaeniad gwybodaeth, i gysylltu'n uniongyrchol â darpar denant neu (yn ôl y digwydd) ddarpar landlord (neu asiant y darpar landlord);

(ii) y gall darpar landlord (neu asiant y darpar landlord) a darpar denant ei ddefnyddio i barhau i gyfathrebu yn uniongyrchol â'i gilydd;

pan fo'n cael ei wneud gan berson—

(c) nad yw'n gwneud unrhyw beth arall o fewn is-adran (1), a

(d) nad yw'n gwneud gwaith rheoli eiddo mewn perthynas â'r eiddo.

(3) Nid yw "gwaith gosod" yn cynnwys gwneud unrhyw un o'r pethau ym mharagraffau (a) i (c) a ganlyn—

(a) trefnu a chynnal ymweliadau gan ddarpar denantiaid;

(b) paratoi, neu drefnu i baratoi, y cytundeb tenantiaeth;

(c) paratoi, neu drefnu i baratoi, unrhyw stocrestr neu restr o gyflwr;

pan fo'n cael ei wneud gan berson—

(d) nad yw'n gwneud unrhyw beth arall yn y paragraffau hynny nac unrhyw beth arall o fewn is-adran (1), ac

(e) nad yw'n gwneud unrhyw beth o fewn adran 12(1) mewn perthynas â'r eiddo.

(4) Nid yw "gwaith gosod" yn cynnwys y canlynol ychwaith—

(a) gwneud pethau o dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth gyda landlord;

(b) gwneud pethau o dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth, neu gontract am wasanaethau, gyda pherson sydd—

(i) wedi ei gyfarwyddo i ymgymryd â'r gwaith gan landlord, a

(ii) wedi ei drwyddedu i wneud hynny o dan y Rhan hon;

(c) unrhyw beth a wneir gan awdurdod tai lleol (pa un a yw'n arfer ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol ai peidio);

(d) pethau o ddisgrifiad, neu bethau a wneir gan berson o ddisgrifiad, a bennir at ddibenion yr adran hon mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**I3** A. 10 mewn grym ar 23.11.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2016/1009, **ergl. 2(2)(g)**

**I4** A. 10 mewn grym ar 23.11.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2016/1066, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 10.